# CABINET

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA, TREDOMEN, DDYDD MERCHER, 28 TACHWEDD 2018, AM 10.30AM

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd D. Poole – Cadeirydd

Cynghorwyr:

C. Cuss (Gofal Cymdeithasol a Lles), N. George (Gwasanaethau'r Gymdogaeth), C.J. Gordon (Gwasanaethau Corfforaethol), P. Marsden (Addysg a Chyrhaeddiad), S. Morgan (Economi, Isadeiledd a Chynaliadwyedd), L. Phipps (Cartrefi a Lleoedd), ac E. Stenner (Yr Amgylchedd a Diogelwch y Cyhoedd).

Ynghyd â:

C. Harrhy (Prif Weithredwr Dros Dro), a M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro – Cymunedau).

Hefyd yn bresennol:

M. Lloyd (Pennaeth Isadeiledd), R. Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro), C. Evans (Rheolwr Iechyd yr Amgylchedd), ac A. Dredge (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

### 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Mrs B.A. Jones (Aelod Cabinet dros Gyllid, Perfformiad a Llywodraethu), R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), a D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai).

### 2. DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant ar ddechrau'r cyfarfod, nac yn ystod y cyfarfod.

### 3. CABINET – 14 TACHWEDD 2018

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Tachwedd 2018 (cofnodion rhifau 1–6), a'u llofnodi fel cofnod cywir.

**MATERION A OEDD ANGEN PENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**4. CYNIGION ARBED YNNI A GOLEUO YN Y DYFODOL**

Dywedwyd wrth y Cabinet fod yr adroddiad wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd ar 30 Hydref 2018. Roedd yr adroddiad yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am gynigion arbed ynni a goleuo yn y dyfodol a nifer o opsiynau diwygiedig i'w hystyried, o ystyried bod y cynnydd mewn prisiau ynni ar gyfer 2018/19 yn sylweddol uwch na'r disgwyl. Roedd adroddiad cynharach wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu ar 15 Mai 2018, a'i argymhellion dilynol i'r Cabinet mewn perthynas ag opsiynau goleuo yn y dyfodol (fel y nodir yn adran 2.2 o'r adroddiad). Dywedodd y Swyddogion fod yr Awdurdod, ar ôl cyflwyno'r adroddiad gwreiddiol, wedi cael anfoneb gan y cyflenwyr trydan ar gyfer 2018/19, a bod y gyfradd fesul uned wedi cynyddu'n sylweddol o'i chymharu â 2017/18 (cyfanswm cynnydd o 13.4%), ac sy'n uwch na'r gost a ragwelwyd yn wreiddiol. Bydd y costau uwch yn golygu y bydd angen £165,000 o gyllid ychwanegol o gyllideb isadeiledd y Gyfadran Cymunedau, na roddwyd ystyriaeth iddo yn y lle cyntaf, felly, mae hyn wedi golygu bod angen opsiynau diwygiedig i sicrhau arbedion ynni goleuadau stryd a allai cyfrannu at y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

Cyfeiriwyd yr Aelodau at adrannau 4.5.3 i 4.5.5 yn yr adroddiad, ac Atodiad 1 i'r adroddiad, sy'n nodi opsiynau arbed ynni diwygiedig ar gyfer goleuo'r strydoedd. Roedd pob opsiwn yn tynnu sylw at nifer yr unedau yr effeithir arnynt, costau gweithredu, arbedion ynni kWh a $CO_2$, ac arbedion ariannol blynyddol (gan gynnwys cyfnodau ad-dalu). Nodwyd, ym marn y Swyddogion, mai'r dull gweithredu mwyaf buddiol fyddai gyrru'r gwaith yn ei flaen i addasu'r holl stoc goleuadau stryd yn llusernau LED a gweithredu cynllun goleuo'r strydoedd am ran o'r nos yn achos yr holl oleuadau, ac eithrio wrth gyffyrdd ac yng nghanol trefi mawr (Opsiwn 3). Esboniodd y Swyddogion eu bod wedi archwilio opsiynau eraill i weld a oes modd i'r Awdurdod gynhyrchu ei bŵer ei hun. Mae'r rhain yn cynnwys ynni solar, ond, nid yw hwn yn opsiwn dichonadwy ar hyn o bryd oherwydd y gost uchel sy'n gysylltiedig â newid colofnau'r goleuadau stryd. Bydd technolegau amgen yn parhau i gael eu hadolygu, a'u monitro, i amlygu opsiynau i leihau'r defnydd o ynni ymhellach. Argymhellodd y Pwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd Opsiwn 1 (addasu'r holl lusernau'n rhai LED) ac Opsiwn 3 (addasu'r holl oleuadau yn rhai LED a gweithredu cynllun goleuo'r strydoedd am ran o'r nos yn achos yr holl oleuadau, ac eithrio wrth gyffyrdd ac yng nghanol trefi mawr) i'r Cabinet fel y dulliau a ffefrir ar gyfer cynigion arbed ynni a goleuo yn y dyfodol.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

> Penderfynwyd, am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog, i gytuno i Opsiwn 3, sef addasu'r holl oleuadau stryd yn rhai LED a gweithredu cynllun goleuo'r strydoedd am ran o'r nos yn achos yr holl oleuadau, ac eithrio wrth gyffyrdd ac yng nghanol trefi mawr.

**5. DAD-DROSEDDOLI PARCIO – GORCHYMYN DIWYGIO PARCIO I BRESWYLWYR 2018**

Darparodd yr adroddiad gynigion ar gyfer y Cabinet i ddiwygio'r cynlluniau presennol o ran trwyddedau parcio i breswylwyr ar hyd a lled y fwrdeistref sirol. Byddai'r cynigion hyn yn cael eu cydgrynhoi o dan Orchymyn Rheoleiddio Traffig wrth baratoi ar gyfer cyflwyno Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio ym mis Ebrill 2019. Yn ei gyfarfod ar 25 Gorffennaf 2018, cytunodd y Cabinet – yn rhan o'r adroddiad Cam 2 ar Ddad-droseddoli Tramgwyddau Parcio – y dylai'r holl drwyddedau parcio fod yn unol â'r polisi a fabwysiadwyd gan y Cabinet ar 31 Gorffennaf 2012.

Dywedwyd wrth y Cabinet fod, ar hyn o bryd, 1,661 eiddo yn gymwys ar gyfer trwydded barcio i breswylwyr ar draws y fwrdeistref sirol a bod 1,384 o drwyddedau byw. Cyfeiriodd y Swyddog at y meini prawf a'r costau sy'n berthnasol i Awdurdodau cyfagos, fel cymhariaeth.

Nododd yr Aelodau fod cryn dipyn o wrthwynebiadau wedi dod i law (wedi'u hatodi wrth yr adroddiad) mewn ymateb i hysbysebu'r newidiadau arfaethedig i'r cynlluniau parcio i breswylwyr ledled y fwrdeistref sirol. Gofynnwyd i'r Cabinet ystyried yr opsiynau, a'u goblygiadau, ym mharagraffau 4.6 a 4.7 yng ngoleuni'r gwrthwynebiadau a ddaeth i law.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

> PENDERFYNWYD, yn amodol ar ddiwygio paragraff 10.3 a ddylai gynnwys *Opsiwn 3* yn lle Opsiwn 2, ac am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog, i fabwysiadu'r polisi cymeradwy â thâl llai o £15 ac i ddiwygio'r Gorchymyn a hysbysebir.

## 6. STRATEGAETH DDRAFFT TOILEDAU LLEOL

Roedd yr adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ynglŷn â'r Strategaeth Ddrafft Toiledau Lleol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Daeth Rhan 8 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 – sef Darparu Toiledau – i rym ar 31 Mai 2018. Mae'n rhoi dyletswydd ar bob awdurdod lleol yng Nghymru i lunio a chyhoeddi strategaeth toiledau lleol yn ei ardal, o fewn blwyddyn i'r dyddiad hwn. Eglurodd y Swyddog fod gan awdurdodau lleol yng Nghymru, bellach, gyfrifoldeb am asesu'r angen i ddarparu toiledau ar gyfer eu cymunedau, cynllunio i ddiwallu'r anghenion hynny, llunio strategaeth toiledau lleol, adolygu'r strategaeth, diweddaru'r strategaeth, a chyhoeddi'r strategaeth ddiwygiedig.

Dywedwyd wrth y Cabinet nad yw'r ddyletswydd i lunio strategaeth toiledau lleol yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu a chynnal a chadw toiledau cyhoeddus yn uniongyrchol. Rhaid i'r Awdurdod Lleol gymryd golwg strategol ar sut y gellir darparu cyfleusterau ar gyfer ei boblogaeth leol a sicrhau bod gan y boblogaeth leol fynediad iddynt. Wrth adolygu'r strategaeth hon, mae'n ofynnol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili gyhoeddi datganiad o gynnydd. Dylai'r strategaeth gyfrannu at sicrhau toiledau hygyrch a glân lle bynnag y mae pobl yn byw, yn gweithio, neu'n ymweld. Cyfeiriwyd yr Aelodau at y strategaeth ddrafft (Atodiad 2) sydd wedi'i llunio. Mae'n cynnwys adborth yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus yn rhan o'r asesiad o anghenion a gynhaliwyd drwy gydol mis Medi 2018. Mae dogfen gryno wedi'i llunio ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus, wedi'i chynnwys yn Atodiad 1.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

> PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog:-
>
> (i) Cymeradwyo ymgynghoriad ynglŷn â'r Strategaeth Ddrafft Toiledau Lleol;
>
> (ii) Bod Swyddogion yn codi'r angen am newidiadau i Bolisi Cynllunio a deddfwriaeth mewn perthynas â darparu toiledau, a mynediad iddynt.

Terfynwyd y cyfarfod am 11.00am.

Cymeradwywyd a llofnodwyd yn gofnod cywir, yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wneir yn y cyfarfod a gynhelir ar 12 Rhagfyr 2018.

____________________

CADEIRYDD